TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 1 Opsiwn 1.6

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

## Cynnwys


Cyflwyniad ..... 1

Nodau'r Canllawiau Addysgu ..... 1

Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ..... 1

Strwythur y Cymhwyster ..... 2

Asesu ..... 3

Crynodeb o'r Asesu – Uned 1 ..... 3

Amcanion asesu a phwysoli Uned 1 ..... 3

Trosolwg o Uned 1 Modern Opsiwn 1.6: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959 ..... 4

Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.6 Modern: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959 ..... 5

Profiadau Dysgu ..... 36

Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ..... 37

Rhestr termau ar gyfer Opsiwn 1.6 Modern: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959 ..... 44


© WJEC CBAC Ltd 2025.

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

## Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

## Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn addysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu – Uned 1

| **Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**<br>***Arholiad ysgrifenedig:* 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>**60 marc** |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg iddynt ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.<br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**1.1** Rhys ap Gruffudd, Tywysog Deheubarth tua 1132–1197<br>**1.2** Owain Glyndŵr tua 1354–1416<br>**Modern Cynnar**<br>**1.3** Cymru a'r Tuduriaid cynnar tua 1485–tua 1547<br>**1.4** Cymru yng nghyfnod y Rhyfel Cartref, tua 1603-tua 1660<br>**Modern**<br>**1.5** Gwrthryfeloedd a Phrotest yng Nghymru, tua 1831–tua 1892<br>**1.6** Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Amcanion asesu a phwysoli Uned 1

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Trosolwg o Uned 1 Modern Opsiwn 1.6: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

**Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**
(30% o'r cymhwyster)

Pwrpas Uned 1 yw rhoi cipolwg ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r ffordd newidiodd bywydau pobl yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng tua 1914 a thua 1959.

| **Cyfnod amser** | **Opsiwn** | |
|---|---|---|
| Modern | 1.6 | Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959 |
| | 1.6.1 | Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'i ganlyniadau ar gymdeithas Cymru |
| | 1.6.2 | Bywyd yng Nghymru yn ystod y Dirwasgiad |
| | 1.6.3 | Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd |
| | 1.6.4 | Datblygiadau gwleidyddol yng Nghymru erbyn yr 1950au |
| | 1.6.5 | Datblygiadau yng nghymdeithas Cymru erbyn yr 1950au |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 1.6 Modern: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

**1.6 Cefndir: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif**
(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. **Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol**).

| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
|---|---|---|---|---|
| • pwysigrwydd diwydiant i economi Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys mwyngloddio glo a'r diwydiant dur. | Y diwydiannau gwahanol yng Nghymru a'u heffaith ar unigolion a chymdeithas gyfan ar ddechrau'r 20fed ganrif. | **Gweithgaredd**:<br>Edrychwch ar y map o feysydd glo Cymru a Lloegr ac, mewn grwpiau bach, gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i'r canlynol ar y map:<br>• ardaloedd â meysydd glo anghudd<br>• ardaloedd â meysydd glo cudd (profwyd)<br>• ardaloedd â meysydd glo cudd (profwyd yn rhannol neu'n debygol o fod yn bresennol)<br>• ardaloedd sy'n cynnwys glo gweithiadwy<br>ac yna trafodwch ble mae'r ardaloedd hyn yng Nghymru a Lloegr. | **Map(iau):**<br>Map o feysydd glo Cymru a Lloegr wedi'u cyhoeddi gan y Geographical Survey – Gallica<br><br>Haearn a glo yng Nghymru<br><br>**Gwefan(nau):**<br>Wales, Britain and the World | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Edrychwch ar sleidiau 2 i 6 o'r sioe sleidiau *Iron and Coal in Wales* ac ymatebwch i'r cwestiynau a dynnwyd o'r deunydd.<br><br>Er enghraifft: Pryd oedd haearn a glo yn brif ddiwydiannau Cymru? Pam oedd trefi fel Merthyr a Thredegar yn arwyddocaol? Faint o bobl oedd yn byw ym Merthyr erbyn 1851?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall yr ardaloedd diwydiannol yng Nghymru a'u heffaith ar newid demograffig.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gan ddefnyddio'r data yn yr e-lyfr *Wales, Britain and the World* (sleidiau 16-21), datblygwch ddiagram sy'n esbonio'r prif newidiadau yng Nghymru erbyn 1913.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos dealltwriaeth fanwl o newid demograffig yng Nghymru yn ystod y 19eg ganrif, a'r rhesymau dros hyn. | | |
| • dylanwadau ar y newid ym mywydau pobl Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys yr ymgyrch dros bleidlais i fenywod ac effaith mudo. | Y newid yng nghyfansoddiad cymdeithasol Cymru ar ddechrau'r 20fed ganrif. | **Gweithgaredd:**<br>Gwyliwch y fideo ar wefan *Y Mudiad Pleidlais i Fenywod yng Nghymru* a nodwch y grwpiau canlynol a sut roeddent yn ymgyrchu, gan roi enghreifftiau:<br>• NUWSS | **Gwefan(nau):**<br>Y Mudiad Pleidlais i Fenywod yng Nghymru | 1.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Nodau a thactegau'r grwpiau pleidlais i fenywod amrywiol eraill.<br><br>Pwy a ymfudodd i Gymru a phwy a ymfudodd o Gymru ac effaith hyn ar gymdeithas yng Nghymru. | • WSPU<br>• WFL<br>Mewn grwpiau, trafodwch pa grŵp oedd fwyaf dylanwadol ac esboniwch pam.<br><br>Adolygwch y deunyddiau ar *Migration to the South Wales coalfield* a threfnwch y deunydd ar nifer y mewnfudwyr ac ymfudwyr mewn tabl.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall cymdeithas Cymru ar ddechrau'r 20fed ganrif.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gan ddefnyddio'r deunyddiau ychwanegol, trefnwch ddadl ar rinweddau newid cymdeithasol yng Nghymru. Gall dysgwyr drafod beth oedd fwyaf arwyddocaol (a pham) – naill ai effaith pleidlais i fenywod neu fudo (i mewn ac allan). Gallant hefyd/neu yn hytrach drafod a oedd effaith y newid yn debygol o fod yn gadarnhaol neu'n negyddol ar y cyfan.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddechrau dadlau ynghylch arwyddocâd newidiadau yn y gymdeithas yng Nghymru ar ddechrau'r 20fed ganrif, gan ddadansoddi achosion y newidiadau hyn a gwerthuso eu harwyddocâd cymharol. | Migration to the South Wales coalfield<br><br>Yr Hawl i Bleidleisio: yr Ymgyrch yng Nghymru<br><br>Menywod yn Hanes Cymru - Cadw<br><br>Gweithio Dramor - Ymfudo o Gymru | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.6.1 Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'i ganlyniadau ar gymdeithas Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • dylanwad y Rhyfel Byd Cyntaf ar fywyd yng Nghymru, gan gynnwys:<br>  • y Ffrynt Cartref yng Nghymru yn ystod y Rhyfel<br>  • gwrthwynebwyr cydwybodol a heddychiaeth. | Y rhesymau y daeth Prydain yn rhan o'r Rhyfel Byd Cyntaf.<br><br>Effaith y rhyfel ar bobl Prydain ac yn enwedig Cymru – i ba raddau newidiodd bywydau pobl?<br><br>Beth oedd gwrthwynebwyr cydwybodol a'r rhesymau y daeth rhai pobl yn wrthwynebwyr cydwybodol.<br><br>Sut cafodd gwrthwynebwyr cydwybodol eu hystyried a'u trin mewn cymdeithas ehangach. | **Gweithgareddau:**<br>Rhowch grynodeb byr o'r rheswm pam daeth Prydain yn rhan o'r rhyfel yn 1914 (er enghraifft, rhowch grynodeb o'r wybodaeth ar HistoryHit neu BBC Bitesize).<br><br>Gan weithio mewn grwpiau, defnyddiwch ddeunydd astudio Castell Sain Ffagan ac esboniwch sut mae pob un o'r canlynol yn ein helpu i ddeall effaith y Rhyfel ar Gymru (defnyddiwch y deunydd ffynhonnell sydd wedi'i gynnwys pan fo modd):<br>• Castell Sain Ffagan<br>• Ffermdy Llwyn-yr-eos<br>• Siop Gwalia<br>• Gwesty'r Vulcan<br>• Sefydliad y Gweithwyr Oakdale<br>• Cofeb Ryfel Trecelyn.<br><br>Edrychwch eto ar y ddogfen *Cofio dros Heddwch* a chwblhewch y gweithgarwch tribiwnlys CA4. | **Gwefan(nau):**<br>HistoryHit - why did Britain enter the First World War?<br><br>BBC Bitesize - why did the First World War start?<br><br>Sain Ffagan: Llwybr y Rhyfel Byd Cyntaf<br><br>Cofio dros Heddwch: Remembering for Peace.<br><br>Belief and Action: Wales' Heritage of Opposing Conflict, from WW1 to today<br><br>Chwiliad am 'Gwrthwynebwyr Cydwydbodol' - Casgliad y Werin Cymru | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddisgrifio effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar fywydau pobl Cymru, gan ddangos sut effeithiwyd ar fywydau rhai pobl yn wahanol i eraill.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Edrychwch eto ar y deunyddiau *Belief and Action and Conscientious Objector Search* a pharatowch gyflwyniad ar y rhesymau pam daeth pobl yn wrthwynebwyr cydwybodol a'r effaith gafodd y penderfyniad hwn ar eu bywydau yn uniongyrchol ac yn y tymor hir<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr gymryd rhan mewn trafodaethau ar arwyddocâd gwrthwynebwyr cydwybodol yng Nghymru a maint yr heddychiaeth erbyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. | | |
| • newidiadau ym mywydau menywod, gan gynnwys:<br>  ◦ rôl menywod Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf<br>  ◦ bywydau menywod yng Nghymru yn yr 1920au. | Y graddau y newidiodd statws menywod *yn ystod* y Rhyfel Byd Cyntaf:<br>• effaith menywod mewn gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol<br>• rolau "traddodiadol" menywod cyn y rhyfel (e.e., gwraig tŷ | **Gweithgareddau:**<br>Gwrandewch ar y recordiadau sain/darllenwch y trawsgrifiadau o *Hanes Merched Cymru 1900-1918* ac edrychwch ar y delweddau ategol. Pa argraffiadau sydd gennych am fywydau menywod yng Nghymru ar yr adeg hon? Gwnewch nodiadau i baratoi ar gyfer y brif dasg. | **Gwefan(nau):**<br>Hanes Merched Cymru 1900-1918 - Amgueddfa Cymru<br><br>Merched Caneri - Amgueddfa Cymru<br><br>The Vital Role Of Women In The First World War | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | neu wasanaeth domestig)<br>• gwaith menywod yn y gwasanaethau cynorthwyol, ffatrïoedd arfau rhyfel a'r Fyddin Dir<br>• rôl Sefydliad y Merched<br>• yr heddlu, nyrsys a meddygon.<br><br>Y graddau y newidiodd statws menywod *oherwydd* y Rhyfel Byd Cyntaf:<br>• ymdrechion i wthio menywod yn ôl i'r cartref ar ôl y Rhyfel<br>• deddfwriaeth a ddatblygodd hawliau menywod fel Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1928<br>• rôl menywod mewn gwleidyddiaeth gan gynnwys Arglwyddes Rhondda a Megan Lloyd George. | Defnyddiwch y print o 1950, a'r adnoddau ar y Merched Caneri a Vital Role of Women i grynhoi'r effaith a gafodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar fywydau rhai menywod ym Mhrydain ac yng Nghymru yn benodol. Gwnewch nodiadau i baratoi ar gyfer y brif dasg.<br><br>Cymharwch a chyferbynnwch fywydau a chymeriadau Arglwyddes Rhondda a Megan Lloyd George.<br><br>Y brif dasg: Fel dosbarth, lluniwch ddiagram sy'n:<br>• nodi nodweddion bywydau menywod ar ddechrau'r 20fed ganrif, trafodwch<br>• nodi ffactorau wnaeth ddylanwadu ar fywydau menywod yn yr 1910au a'r 1920au<br>• dod i gasgliad ar y graddau yr oedd bywydau menywod yng Nghymru wedi datblygu yn ystod y cyfnod hwn, gan ddefnyddio enghreifftiau penodol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall datblygiad rolau menywod yn y cartref, y gweithle ac mewn gwleidyddiaeth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymarfer testun parhaus: Pa mor arwyddocaol oedd y newidiadau i fywydau menywod yng Nghymru rhwng tua 1900 a thua 1930? | (gan gynnwys fideo 12 munud o hyd<br><br>BBC Blogs - Wales - Megan Lloyd George: a true heir<br><br>BBC - Lady Rhondda<br><br>**Delwedd(au):**<br>Print addysgol o'r 1950au yn dangos gweithgareddau Sefydliad y Merched tua 1915 | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddechrau defnyddio gwybodaeth ffeithiol ac ymchwil a'u cyflwyno mewn ymateb sy'n dangos dadansoddiad, gwerthusiad a barn. | | |
| • tensiynau ar sail hil yn Ne Cymru, gan gynnwys<br>◦ Terfysgoedd Hiliol De Cymru yn 1919<br>◦ ymateb yr awdurdodau i'r terfysgoedd. | Y rhesymau dros Derfysgoedd Hiliol De Cymru yn 1919, eu cwrs a'u canlyniadau, gan gynnwys:<br>• y tensiwn rhwng milwyr wedi'u dadfyddino a mewnfudwyr o'r Ymerodraeth yn ardaloedd y dociau<br>• amheuaeth ynghylch mewnfudwyr yn cael perthnasoedd â menywod gwyn<br>• problemau tai.<br><br>Sut datblygodd y digwyddiadau yng Nghasnewydd, Caerdydd a'r Barri.<br><br>Pa mor debyg a gwahanol oedd yr agweddau a fabwysiadwyd gan y sefydliad (e.e., y system gyfreithiol a'r wasg) | **Gweithgareddau:**<br>Edrychwch ar yr achosion o anniddigrwydd yn nogfen Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Rhowch yr achosion hynny mewn trefn ddisgynnol ac esboniwch eich rhesymeg.<br><br>Edrychwch ar y deunyddiau ar dudalen National Archive ac, mewn grwpiau, cwblhewch y tasgau ar gyfer pob un o'r ffynonellau. Cyflwynwch ganfyddiadau eich grŵp i weddill y dosbarth.<br><br>Defnyddiwch y tasgau estynedig fel y bo angen.<br><br>Mewn grwpiau, gwrandewch ar Benodau 11 neu 12 neu 15 ac 16 o *Casgliad y Werin Cymru - Y Terfysgoedd Hiliol yn y Barri 1919* (gweler y dolenni YouTube hefyd). Rhowch grynodeb o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod Terfysgoedd Casnewydd, y Barri a Chaerdydd a beth oedd y canlyniadau. Esboniwch y crynodeb i'r grwpiau eraill. Rhowch y wybodaeth mewn diagram dan arweiniad yr athro. A thrafodwch nodweddion eraill | **Gwefan(nau):**<br>The South Wales Race Riots of 1919 - The National Library of Wales<br><br>1919 Race Riots - The National Archives<br><br>Pennod 11: Y Terfysgoedd Hiliol yn y Barri 1919 \| Casgliad y Werin Cymru<br><br>Pennod 12 Y Terfysgoedd Hiliol yng Nghasnewydd 1919 \| Casgliad y Werin Cymru<br><br>Pennod 15 Terfysgoedd Hiliol Caerdydd Rhan Un \| Casgliad y Werin Cymru | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mewn ymateb i'r terfysgoedd? | sy'n dod i'r amlwg (e.e. sylw yn y wasg/agweddau).<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr grynhoi, esbonio a thrafod y rhesymau dros Derfysgoedd Hiliol De Cymru, y digwyddiadau a'r canlyniadau.<br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar Bennod 25 o adnodd Casgliad y Werin Cymru. Trafodwch: Pam mae gwybodaeth am bobl fel Ivor Gabriel Landsman yn bwysig er mwyn deall profiadau Pobl Ddu yng Nghymru ar ddechrau'r 20fed ganrif?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr feithrin dealltwriaeth o'r ffordd mae grwpiau gwahanol o bobl mewn cymdeithas yn gweld eu hunain a'u rôl yn y gymdeithas honno. | Pennod 16 Terfysgoedd Hiliol Caerdydd (Rhan Dau: Dynion du yn y llys)<br>Pennod 25: Cymro Croenddu: Un o Ddioddefwyr y Terfysgoedd Hiliol yn 1919 \| Casgliad y Werin Cymru | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.6.2 Bywyd yng Nghymru yn ystod y Dirwasgiad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • rhesymau dros y Dirwasgiad yng Nghymru gan gynnwys:<br>• dirywiad diwydiannau traddodiadol glo a haearn<br>• effaith Cwymp Wall Street, 1929 ar ddiwydiant. | Pam dirywiodd y diwydiannau traddodiadol:<br>• hen ddulliau<br>• cystadleuaeth o dramor<br>• tollau tramor a threthi.<br><br>Effaith Cwymp Wall Street ar gyflogaeth ac economi Cymru. | **Gweithgareddau:**<br>Rhowch grynodeb ac esboniwch y wybodaeth yn adran gyntaf *BBC Wales History Chapter 20,* gan nodi:<br>• nifer y marwolaethau o Gymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf<br>• effaith y rhyfel ar y broses o gynhyrchu glo<br>• y cwymp yn 1921 a'i effaith economaidd-gymdeithasol<br>• gweithredoedd David Lloyd George<br>• Streic Gyffredinol 1926.<br><br>Defnyddiwch y wybodaeth o adran gyntaf (*The rise of unemployment*) War and Depression y BBC (rhan 2) i esbonio pam yr oedd Cymru yn arbennig o agored i newidiadau economaidd byd-eang yn ystod yr 1920au.<br><br>Defnyddiwch yr esboniad uchod a'r deunydd yn *The Great Depression in Britain.* Gan weithio mewn parau neu mewn grwpiau bach, lluniwch ddiagram llif sy'n esbonio sut yr effeithiodd Cwymp Wall Street ar ddiwydiannau traddodiadol yng Nghymru. | **Gwefan(nau):**<br>BBC Wales - History - Themes - Chapter 20: War and depression<br><br>War and depression (part 2) - BBC Wales History<br><br>The Great Depression in Britain - Historic UK<br><br>World Market Slump Placards - British Pathé | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr esbonio achosion y dirwasgiad a dangos sut a pham effeithiodd y digwyddiadau mewn mannau eraill o'r byd, ac yn enwedig Cwymp Wall Street, ar Gymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Dewiswch un o'r placardiau o rîl newyddion Pathé ac ysgrifennwch erthygl papur newydd fer yn canolbwyntio ar Gymru gan ddefnyddio un o'r placardiau fel pennawd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddarllen deunydd o ffynonellau cyfoes a'i ddefnyddio i fyfyrio ar y sefyllfa yng Nghymru o safbwynt cyfoes. | | |
| • effaith y dirwasgiad ar bobl Cymru, gan gynnwys:<br>  • tlodi, y dôl, y Prawf Modd a gorymdeithiau newyn o'r Rhondda<br>  • diweithdra ac allfudo o Gymru. | Effaith digwyddiadau economaidd ar faterion cymdeithasol yng Nghymru.<br><br>Y caledi yr oedd pobl dosbarth gweithiol yng Nghymru yn ei wynebu a'r ffyrdd y gwnaeth y Dirwasgiad waethygu tlodi. | **Gweithgareddau:**<br>Rhowch grynodeb ac esboniwch y wybodaeth yn ail adran *(The impact of depression)* War and Depression (rhan 2), gan nodi:<br>• effaith y Dirwasgiad ar dwf diwydiannol<br>• y data ar ymfudo o Gymru<br>• effaith bersonol a chymdeithasol “segurdod gorfodol”<br>• yr effaith ar grefydd a diwylliant yng Nghymru. | **Gwefan(nau):**<br>War and depression (part 2) - BBC Wales History<br><br>Hunger Marches<br><br>Y Llythyr yn y Lamp: Gorymdaith Newyn Glowyr y De | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Y rhesymau dros y Gorymdeithiau Newyn a dyheadau'r rhai a oedd yn rhan ohonynt.<br><br>Effaith y Prawf Modd a'r dôl.<br><br>Effaith diweithdra yng Nghymru, gan gynnwys ei effaith ar ymfudo. | Rhowch grynodeb o'r wybodaeth o dudalen we Hunger Marches a lluniwch bennawd ar gyfer pob un o'r delweddau sy'n esbonio pwrpas a gwerth pob un.<br><br>Darllenwch yr erthygl *Y Llythyr yn y Lamp* ac, mewn grwpiau, trafodwch pa argraffiadau sydd gennych o'r awdur, D Lloyd Davies.<br><br>Gwyliwch y clip o *Poverty in the 1930s* ac atebwch y cwestiynau canlynol:<br>• Faint o bobl sy'n byw yn y tŷ gyda Molly? (5)<br>• Pam mae ansawdd yr aer mor wael? (llawn huddygl o simneiau llawn)<br>• Pam mae lletemau yn cael eu gosod o dan goesau'r bwrdd? (mae'r llawr yn sigo)<br>• Faint o deuluoedd ym Mhrydain oedd yn byw fel teulu Molly? (1 filiwn)<br>• Pwy oedd Fenner Brockway? (AS Llafur ac awdur/ymchwilydd ar fywydau pobl mewn slymiau)<br>• Pa afiechydon ymysg plant yr oedd camfaethiad cronig yn cyfrannu ato? (Y llech, niwmonia a broncitis)<br><br>Gweithgaredd dan arweiniad y dysgwr. Cynhaliwch ymchwil ar y Prawf Modd a'r dôl. Ystyriwch y canlynol:<br>• Pryd y cyflwynwyd y Prawf Modd.<br>• Pam cafodd ei gyflwyno? | **Fideo(s):**<br>Poverty in 1930s Britain - YouTube (0:46–3:29)<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Wales Between the Wars*, Trevor Herbert, Gareth Elwyn Jones | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Pam oedd y Prawf Modd yn amhoblogaidd?<br>• Beth oedd effaith cyflwyno'r Prawf Modd?<br><br>Lluniwch ddiagram sy'n cysylltu ac yn esbonio'r termau canlynol: Llai o fudd-daliadau, craffu, anniddigrwydd, stigma.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith gymdeithasol, ddiwylliannol, economaidd, gwleidyddol a chrefyddol y Dirwasgiad ar Gymru a'i phobl yn yr 1920au a'r 1930au.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl: gan ddefnyddio'r deunyddiau a ddatblygwyd trafodwch ddifrifoldeb effaith y Dirwasgiad ar Gymru. Cofnodwch y dadleuon allweddol gafodd eu gwneud ac ysgrifennwch draethawd manwl a phenodol (tua 300–500 o eiriau) ar: Pa mor arwyddocaol oedd effaith y Dirwasgiad ar Gymru yn yr 1920au a'r 1930au?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr gyfosod eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddifrifoldeb effaith y Dirwasgiad ar Gymru. | | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • ymateb Cymru i'r Dirwasgiad, gan gynnwys:<br>• Deddf yr Ardaloedd Arbennig, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest a thwf diwydiant ysgafn<br>• gwella cyfleoedd hamdden, twristiaeth, chwaraeon, radio a sinema. | Ymdrechion i helpu Cymru yn ystod y Dirwasgiad.<br><br>Y rhesymau dros Ddeddf yr Ardaloedd Arbennig, gan gynnwys Ystâd Ddiwydiannol Trefforest ac effaith y diwydiannau ysgafn ar Gymru.<br><br>Lwyddiannau a methiannau Deddf yr Ardaloedd Arbennig yng Nghymru.<br><br>Datblygiad trefi glan môr a chyrchfannau.<br><br>Effaith radio, chwaraeon a sinema ar fywydau pobl Cymru yn ystod y Dirwasgiad a'r 1930au. | **Gweithgareddau:**<br>Trafodaeth (cyfeiriwch at *Supporting industry: the inter-war years*): Pam gwnaeth y Senedd ymyrryd mewn diwydiant yn ystod y blynyddoedd rhwng y ddau ryfel, a beth oedd canlyniadau hynny?<br><br>Gan gyfeirio at *Petition (unemployment, South Wales)* a *Treforest Trading Estate* (y ddwy ddogfen Hansard), rhowch grynodeb o'r data a gyflwynwyd gan Syr William Jenkins ac esboniwch yn gryno raddau diweithdra yn Ne Cymru yn 1936 a thrafodwch y graddau yr oedd y datblygiadau yn Nhrefforest yn ddigonol yn eich barn chi. (Noder: Mae adnoddau eraill, e.e., BBC Bitesize, adnoddau blaenorol CBAC ar gael i ategu'r deunydd hwn).<br><br>Gwyliwch y clip o'r fideo *Poverty in the 1930s* ac esboniwch pam y gellid dadlau bod "dwy Brydain" yn yr 1930au.<br><br>Fel dosbarth, gweithiwch drwy gyfnodau cynnar Llinell Amser y BBC hyd at 1937. Trafodwch yr effaith gafodd y BBC ar Brydain yn yr 1920au a'r 1930au.<br><br>Ymchwiliwch i'r gweithgaredd mewn grwpiau. Cwblhewch un o'r canlynol:<br><br>**Chwaraeon** (defnyddiwch yr adnoddau perthnasol, ar y dde, fel man cychwyn): | **Gwefan(nau):**<br>Supporting industry: the inter-war years - UK Parliament<br><br>Petition (Unemployment, South Wales). (Hansard, 26 November 1936)<br><br>Treforest Trading Estate (Hansard, 23 March 1939)<br><br>Changing Industries – Dowlais Visual Art Group<br><br>BBC Timeline<br><br>BBC Bitesize<br><br>The day the BBC televised football for the first time<br><br>Carlton Cinema Swansea<br><br>Welsh Film History 1920–1929 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Beth yw'r gwahaniaeth rhwng chwaraeon amatur a chwaraeon proffesiynol?<br>• Cyn yr Ail Ryfel Byd, pa chwaraeon oedd wedi mynd yn broffesiynol?<br>• Pam y rhannwyd Rygbi yn Rygbi'r Gynghrair a Rygbi'r Undeb?<br>• Sut cyfrannodd y BBC at ddatblygiad chwaraeon yn yr 1920 a'r 1930au?<br><br>**Sinema** (defnyddiwch yr adnoddau perthnasol, ar y dde, fel man cychwyn):<br>• Pryd a ble yr agorodd y sinema gyntaf ym Mhrydain a Chymru?<br>• Pa sinema oedd y cynharaf yn eich ardal?<br>• Pam oedd sinema mor apelgar yn yr 1920au a'r 1930au?<br>• Nodwch seren ffilm o Gymru yn y cyfnod hwn ac o leiaf un o'i ffilmiau.<br>• Gan ddefnyddio'r adnodd Britain on Film – chwiliwch am ffilmiau neu ddeunydd o'r cyfnod hwn yn eich ardal. Beth ydyn nhw ac am beth maen nhw?<br><br>**Twristiaeth** (defnyddiwch yr adnoddau perthnasol, ar y dde, fel man cychwyn):<br>• Dewch o hyd i Landrindod, Llanfair ym Muallt a Llanwrtyd ar fap. Beth sy'n cysylltu'r tair tref hyn?<br>• Nawr dewch o hyd i Landudno a Phorthcawl. Beth sy'n cysylltu'r ddau le hyn? | Welsh Film History 1930–1939<br><br>Britain on film \| BFI Player<br><br>Map of Wales map, UK Atlas<br><br>BBC - Wales History: Porthcawl: from industrial port to holiday resort<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Wales Between the Wars*, Trevor Herbert, Gareth Elwyn Jones<br><br>Mike Cronin, *Sport: A Very Short Introduction*<br><br>R Paul Evans, *Fy Nodiadau Adolygu: CBAC TGAU Hanes Llwybr B* (2014), Penodau 4.1, 5.1 a 6.1<br><br>**Fideo(s):**<br>Poverty in 1930s Britain - YouTube (5:50–7:45) | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Pam oedd trefi fel y rhain yn boblogaidd, a pha fath o ymwelwyr oeddent yn eu denu?<br>• Sut oedd y cyfleoedd twristiaeth yn wahanol i bobl fwy tlawd a chyfoethog?<br>• Beth oedd Deddf Gwyliau â Thâl 1938 yn ei hamlinellu?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y ddwy ochr o Gymru (ffyniannus a ddim yn ffyniannus) yn ystod y Dirwasgiad.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>I ba raddau mae Dowlais yn astudiaeth achos ddefnyddiol wrth ddeall y broses o ddatblygu diwydiant ysgafn yn Ne Cymru yn yr 1930au?<br><br>Esboniwch y cysylltiadau rhwng chwaraeon, radio, sinema a thwristiaeth fel gweithgareddau hamdden yn ystod y Dirwasgiad.<br><br>**Canlyniadau uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith y Dirwasgiad a'r ymdrechion gafodd eu gwneud – gan gynnwys gan fenywod – i leddfu gofid drwy ddiwydiant ysgafn.<br><br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y rhyngweithio rhwng y gweithgareddau hamdden a'u heffaith. | Look at Wales (1956) | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.6.3 Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • bywyd ar y Ffrynt Cartref yng Nghymru gan gynnwys:<br>  • effaith dogni<br>  • lleoli milwyr Unol Daleithiau America (GIs) yng Nghymru. | Effaith rhyfel diarbed ar bobl Cymru.<br><br>Sut roedd dogni'n gweithio a'i effaith ar ddinasyddion.<br><br>Effaith gymdeithasol lleoli milwyr Unol Daleithiau America (GIs) yng Nghymru.<br><br>Y ffordd yr oedd GIs yn trin GIs Du a phobl Ddu. | **Gweithgareddau:**<br>Gweithgaredd carwsél - bydd unigolion yn darllen ac yn llunio crynodeb o adran o *When War broke out* ac yn rhoi adborth i'w grŵp er mwyn ennyn trafodaeth ar: Pam effeithiodd yr Ail Ryfel Byd ar bawb yng Nghymru?<br><br>Gwyliwch y clip *Living on Rations* ac atebwch gwestiynau, fel:<br>• Sut oedd dogni'n gweithio?<br>• Faint o galorïau bob dydd oedd dogni yn galluogi i bob person eu cael?<br>• Pa fanteision oedd i lysieuwyr yn ystod y rhyfel?<br>• Sut oedd pobl yn ychwanegu at eu dognau?<br>• Heblaw am fwyd, beth arall oedd yn cael ei ddogni?<br>• Beth oedd yr effaith ar bapurau newydd?<br>• Pam oedd pobl yn tynnu llinellau o amgylch eu baddonau?<br>• Pam gwnaeth dogni barhau ar ôl y rhyfel?<br><br>Ar ôl adolygu'r deunydd ar filwyr Unol Daleithiau America (GIs) yng Nghymru (ar y dde), gan weithio mewn parau, | **Gwefan(nau):**<br>BBC Wales - History - Themes - When war broke out<br><br>World War Two and Wales - BBC Wales History<br><br>American GIs in Wales - BBC Wales History<br><br>The GIs in Newport by Michele Lewis - Newport Post<br><br>The impact of the Second World War on the people of Wales and England - Swansea University<br><br>**Fideo(s):**<br>Living On Rations In The Second World War \| WW2: I Was There | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | paratowch sgwrs rhwng rhywun o Gymru a milwr o UDA ar y nodweddion tebyg a gwahanol yn eu profiadau.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall pobl a oedd yn profi bywyd ar y Ffrynt Cartref yn ystod y rhyfel a'u bod yn cydymdeimlo â nhw, ac ystyried sut byddai rhyngweithio â milwyr yr Unol Daleithiau wedi gallu newid y bywydau hynny.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyfeiriwch at yr adnodd *The GIs in Newport* a lluniwch fatrics neu siart cwadrant yn nodi manteision ac anfanteision presenoldeb y GIs yn yr ardal, o safbwynt y GIs ac o safbwynt y bobl leol.<br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall pam cyflwynodd presenoldeb y GIs effeithiau cadarnhaol a negyddol i bobl Casnewydd a'r ardal gyfagos. | | |
| | | | | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • menywod Cymru yn yr Ail Ryfel Byd, gan gynnwys:<br>  • y Lluoedd Atodol a Gwasanaeth Gwirfoddol y Menywod<br>  • gweithio mewn ffatrïoedd arfau a Byddin Tir y Menywod. | Deall rôl menywod Cymru yn yr Ail Ryfel Byd.<br><br>Deall y gwaith a wnaed gan fenywod yn y Lluoedd Atodol.<br><br>Deall y gwaith a wnaed gan fenywod yn y ffatrïoedd arfau rhyfel a gwaith Byddin Tir y Menywod.<br><br>Deall profiadau penodol rhai menywod yng Nghymru, yn enwedig rhai menywod Cymraeg eu hiaith. | **Gweithgareddau:**<br>Gwyliwch y fideo *Queen Elizabeth* (2:53-4.33) a'i ddefnyddio i annog trafodaeth: pa gyfleoedd wnaeth godi i fenywod ym Mhrydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd? Pa mor nodweddiadol oedd profiad y Dywysoges Elisabeth yn eich barn chi?<br><br>Ymchwil: Am beth y mae'r byrfoddau canlynol yn sefyll, a beth wnaeth pob grŵp yn ystod y Rhyfel?<br>• ATS<br>• WAAF<br>• WRNS (Wrens)<br>• FANY<br>• WVS<br>• ATA.<br><br>Edrychwch eto ar rai o'r lluniau o Gasgliad y Werin Cymru a'u trafod. Pa argraffiadau sydd gennych o fywyd i'r menywod hyn yn ystod y rhyfel?<br><br>Edrychwch ar yr adran *Women* yn adnodd Prifysgol Abertawe ac ar erthygl BBC News. Mewn grwpiau, trafodwch effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywydau menywod a pharatowch ar gyfer trafodaeth dosbarth ar y canlynol:<br>'Ar y cyfan, cafodd yr Ail Ryfel Byd effaith gadarnhaol ar fywydau menywod yng Nghymru a gweddill y DU'. | **Gwefan(nau):**<br><br>Women in wartime - BBC Wales History<br><br>Byddin Merched y Tir yn yr Ail Ryfel Byd \| Casgliad y Werin Cymru<br><br>The impact of the Second World War on the people of Wales and England - Swansea University<br><br>Women's Voluntary Service: 'The army Hitler forgot' - BBC News<br><br>**Fideo(s):**<br>Queen Elizabeth II and the Second World War | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall yr amrywiaeth o rolau a gyflawnwyd gan fenywod yn yr Ail Ryfel Byd ac effaith eu rolau ar y menywod hynny ac ar y gymdeithas ehangach.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Tasg Ysgrifenedig: Archwiliwch effaith yr Ail Ryfel Byd ar fenywod Cymru.<br><br>**Canlyniad uwch:** Bydd y dysgwyr yn meithrin eu sgiliau dadansoddi a gwerthuso drwy ddarn byr o destun parhaus. | | |
| • effaith rhyfela o'r awyr ar Gymru, gan gynnwys:<br>• profiadau faciwîs a'r teuluoedd oedd yn eu derbyn yng Nghymru<br>• bomio Caerdydd, Abertawe a Doc Penfro. | Deall profiadau pobl a oedd yn byw yn yr ardaloedd o Gymru a gafodd eu bomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd.<br><br>Deall profiad faciwîs yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• profiadau cadarnhaol a negyddol<br>• materion o ran y Gymraeg<br>• yr effaith ar deuluoedd oedd yn eu derbyn.<br><br>Deall effaith y bomio ar Gaerdydd, Abertawe a Doc Penfro. | **Gweithgareddau:**<br><br>Gwyliwch glip *Lives of Evacuees* y BBC a gwnewch nodiadau **ac yna** fideo *The Blitz* y BBC ar gyfer CA2 a gwnewch nodiadau ychwanegol. Trafodwch: gan edrych ar yr adnoddau hyn, pa mor werthfawr yw'r ddau gyda'i gilydd wrth feithrin dealltwriaeth o sut yr oedd plant gwahanol yn teimlo am eu profiadau fel faciwîs ac yn ystod y Blitz.<br><br>Gan ddefnyddio'r adnoddau a'r delweddau, ar fap gwag o dde a gorllewin Cymru, nodwch leoliadau Caerdydd, Doc Penfro ac Abertawe. Defnyddiwch hyn fel sail ar gyfer diagram sy'n disgrifio bomio'r tair ardal hyn (gan gynnwys ardaloedd cyfagos pan fo'n | **Gwefan(nau):**<br>The Cardiff Blitz - BBC Wales History<br><br>75th anniversary of WW2 Pembroke Dock oil bombing fire - BBC News<br><br>Swansea blitz: Childhood memories of 'bombing horror', 80 years on - BBC News<br><br>Three Nights' Blitz - Swansea | 2.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | briodol, er enghraifft Castell-nedd a Phort Talbot).<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall profiadau faciwîs, y teuluoedd oedd yn eu derbyn a phobl a brofodd y bomio o'r awyr yng Nghymru a'u bod yn cydymdeimlo â nhw.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ysgrifennu creadigol: ysgrifennwch ddyddlyfr o safbwynt faciwî a oedd wedi symud o Loegr i ardal gerllaw un o'r llefydd yng Nghymru yr effeithiodd y cyrchoedd bomio arnynt.<br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall y rhesymau dros y rhaglen faciwî a gwerthuso ei chryfderau a'i chyfyngiadau. | **Map(iau):**<br>Map o amlinelliad Cymru<br><br>**Fideo(s):**<br>KS3 History: The lives of WW2 Evacuees - BBC Teach<br><br>The Blitz - BBC Teach<br><br>**Delwedd(au):**<br>WW2 photos show damage caused by Pembrokeshire bombs - BBC News<br><br>17 places in Cardiff destroyed by World War Two bombs and how they look today - Wales Online | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| 1.6.4 Datblygiadau gwleidyddol yng Nghymru erbyn yr 1950au | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith buddugoliaeth Llafur yn etholiad 1945 ar Gymru, gan gynnwys:<br>• gwladoli diwydiannau allweddol gan gynnwys glo a dur<br>• Aneurin Bevan a sefydlu'r GIG yn 1948. | Y rhesymau pam enillodd Llafur yr etholiad.<br><br>Effaith cenedlaetholdeb ar ddiwydiannau allweddol yng Nghymru.<br><br>Effaith y Wladwriaeth Les ar Gymru.<br><br>Cefndir Aneurin Bevan ac effaith y GIG yng Nghymru. | **Gweithgareddau:**<br>Esboniwch nodau Adroddiad Beveridge 1942.<br><br>Edrychwch eto ar yr adnodd Politics '97 a thrafodwch y rhesymau pam enillodd Llafur yr Etholiad Cyffredinol yn 1945.<br><br>Ymchwiliad: gan ddefnyddio'r adnoddau, pa ddiwydiannau gafodd eu gwladoli, pam yr oedd gwladoli yn ddadleuol, a pha mor llwyddiannus oedd hyn.<br><br>Gan ddefnyddio'r adran gyntaf o'r ddogfen *National Health Service in Wales*, rhowch grynodeb o nodau'r GIG wrth iddo gael ei greu.<br>Gan ddefnyddio'r fideos, lluniwch broffil ar Aneurin Bevan a'i gyflawniadau.<br><br>Lluniwch fap meddwl o lwyddiannau a methiannau'r GIG yng Nghymru.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith buddugoliaeth y Blaid Lafur yn etholiad 1945 ar Gymru. | **Gwefan(nau):**<br>1942 Beveridge Report - UK Parliament<br><br>5 July 1945 - Politics 97<br><br>Labour Reforms: The Welfare State 1945-1951<br><br>Nationalisation of the key industries<br><br>Y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn Ne Cymru<br><br>Timeline: the turbulent life of British Steel<br><br>Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru - Cyfraith Cymru | 2.5 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth: pa mor ddibynadwy yw fideos fel clipiau'r BBC ac ITV ar ein dealltwriaeth o Bevan a'i gyfraniad. Pa mor ddefnyddiol ydyn nhw?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ymgysylltu â'r deunydd dehongli a'r deunydd ffynhonnell a dadansoddi a gwerthuso ei ddibynadwyedd a'i ddefnydd. | Aneurin Bevan (1897-1960) - BBC History<br><br>**Fideo(s):**<br>Aneurin Bevan and the birth of the NHS - BBC News<br><br>The Real Nye Bevan According to NHS Founder's Childhood Friends (1960)<br><br>**Llyfr(au):**<br>Martin Johnes, *Wales since 1939*, Penodau 2 a 3 | |
| • datblygiadau o ran cydnabod Cymru o fewn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys:<br>  • Caerdydd yn dod yn brifddinas yn 1955<br>  • mabwysiadu baner "Y Ddraig Goch" yn 1959. | Y rhesymau dros wneud Caerdydd yn brifddinas Cymru yn 1955, gan gynnwys:<br>• y cysylltiadau diwydiannol<br>• y nifer cynyddol o sefydliadau cenedlaethol.<br><br>Y rhesymau pam cafodd "Y Ddraig Goch" ei mabwysiadu fel baner Cymru yn 1959, a'i harwyddocâd i | **Gweithgareddau:**<br>Gwyliwch y clip *Cardiff: A City through Time* a gwnewch nodiadau ar sut mae Caerdydd wedi newid ac i ba raddau.<br><br>Darllenwch yr erthygl *Cardiff then and now* a gwrandewch ar y clip *Cardiff declared Capital of Wales.* Pwy a wnaeth Gaerdydd yn brifddinas Cymru?<br><br>Esboniwch pam cafodd Caerdydd ei gwneud yn brifddinas Cymru yn 1955?<br><br>Lluniwch linell amser o'r defnydd o "Y Ddraig Goch" yng Nghymru. | **Gwefan(nau):**<br>Cardiff then and now: 60 years as capital city of Wales - BBC News<br><br>Dragon spirit: the legend of the Welsh ddraig goch<br><br>Rhestr baneri Cymru - Wikipedia | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ymwybyddiaeth genedlaethol Gymreig. | Ymchwiliwch – pa faneri eraill y gallai Cymru fod wedi'u mabwysiadu?<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddeall sut mae'r ffaith bod Caerdydd wedi cael ei gwneud yn brifddinas a baner "Y Ddraig Goch" wedi helpu i ddiffinio Cymru fel cenedl yn y Deyrnas Unedig.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth: beth oedd fwyaf arwyddocaol yn dylanwadu ar gydnabyddiaeth o Gymru ers yr 1950au – Caerdydd neu'r faner?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddeall sut mae ffactorau gwahanol yn gallu effeithio ar hunaniaeth genedlaethol. | **Fideo(s):**<br>Caerdydd: A City Through Time! (Wales, UK)<br><br>Cardiff declared capital of Wales in 1955 - BBC News | |
| • dylanwad cenedlaetholdeb Cymreig, gan gynnwys:<br>• cynnydd yn y gefnogaeth i Blaid Cymru<br>• Gwynfor Evans a'r ymgyrch yn erbyn boddi cwm Tryweryn. | Datblygu cenedlaetholdeb Cymreig a gwreiddiau a datblygiad Plaid Cymru.<br><br>Y rhesymau pam cafodd cwm Tryweryn ei foddi a'r dadleuon o blaid ac yn erbyn adeiladu'r gronfa ddŵr. | **Gweithgareddau:**<br>Rhowch grynodeb o ddatblygiad Plaid Cymru (er enghraifft, yn gronolegol neu o ran y ffactorau mwyaf arwyddocaol a lywiodd ei ddatblygiad).<br><br>Mewn graff neu siart, plotiwch ganlyniadau etholiadol Plaid Cymru mewn amrywiaeth o etholiadau rhwng 1918 a 2023 gan ddefnyddio'r deunydd o ystadegau etholiadol y DU, yn benodol *Adrannau 2.1, 4 a 5.1.* | **Gwefan(nau):**<br>Plaid Cymru \| History, Policy, & Structure \| Britannica<br><br>UK Election Statistics: 1918-2023, A Long Century of Elections<br><br>Tryweryn: The stories behind | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafodaeth dosbarth cyfan o blaid ac yn erbyn y cynnig mai effaith gyfyngedig a gafodd boddi Cwm Tryweryn ar ddatblygiad cenedlaetholdeb Cymreig.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall datblygiad Plaid Cymru a'r ffactorau a fyddai o bosibl wedi dylanwadu ar genedlaetholdeb Cymreig yng nghanol yr ugeinfed Ganrif.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>Gwrandewch ar y podlediad *Drowned: the flooding of a village.*<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Bydd gan ddysgwyr ddealltwriaeth fanwl o brofiadau'r bobl sy'n rhan o stori Tryweryn. | drowned village Capel Celyn<br><br>Evans, Gwynfor Richard (1912-2005), Welsh nationalist and politician<br><br>**Llyfr(au):**<br>Martin Johnes, *Wales since 1939*, Penodau 7 a 8<br><br>**Podlediad(au):**<br>BBC Sounds - Drowned – The Flooding of a Village - Available Episodes | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **1.6.5 Datblygiadau yng nghymdeithas Cymru erbyn yr 1950au** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sut newidiodd bywydau pobl yng Nghymru yn yr 1950au gan gynnwys:<br>• newidiadau ym mywydau menywod yn y cartref ac yn y gwaith<br>• pobl ifanc yn eu harddegau a datblygiad diwylliant ieuenctid. | Y newidiadau mewn cymdeithas yng Nghymru ac ym Mhrydain yn yr 1950au.<br><br>Sut newidiodd bywydau menywod yn ystod yr 1950au ac i ba raddau.<br><br>Deall effaith diwylliant poblogaidd a ffilmiau fel 'Rock Around the Clock' ar ddiwylliant ieuenctid yng Nghymru. | **Gweithgareddau:**<br>Gwyliwch glip BBC History File a darllenwch erthygl y Guardian a gwnewch nodiadau ar pam yr oedd bywydau llawer o fenywod yn rhwystredig ar ôl yr Ail Ryfel Byd.<br><br>Mewn parau/grwpiau, edrychwch eto ar y deunyddiau o'r ddogfen *CBAC Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd* (hyd at t.8) ac esboniwch effaith pob un ar fywydau menywod yng Nghymru:<br>• addysg a llenyddiaeth y blynyddoedd cynnar<br>• newidiadau yng ngweithgarwch defnyddwyr<br>• datblygiadau mewn teclynnau'r cartref<br>• hysbysebu a'r wasg<br>• adroddiadau'r llywodraeth a deddfwriaeth<br>• yr Ail Ryfel Byd<br>• y gyflogaeth oedd ar gael a mathau newydd o gyflogaeth.<br><br>Trafodaeth: pa mor arwyddocaol oedd y gwrthwynebiad i fenywod yn gweithio yn yr 1950au? | **Gwefan(nau):**<br>Guardian.com - optimism-came-easy-as-a-young-woman-in-the-1950s<br><br>Adnodd blaenorol CBAC ar Galedi, cyfoeth ac anniddigrwydd<br><br>**Llyfr(au):**<br>Martin Johnes, *Wales since 1939*, Pennod 4: 'Promiscuous Living.' Youth culture and the permissive society, 1951–70<br><br>**Fideo(s):**<br>BBC Two - History File, 20th Century World, The changing role of women in the 1950s | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Rhestrwch a thrafodwch y rhwystrau a oedd yn dal i wynebu menywod.<br><br>Gwyliwch ddarnau o'r *1956 travelogue* a'r rhaghysbyseb ar gyfer *Rock Around the Clock.* Pa mor realistig yw'r portread o Gymru yn yr 1950au, ac i ba raddau oedd Rock and Roll yn sioc ddiwylliannol yn eich barn chi?<br><br>Nawr gwyliwch *A People's History* a disgrifiwch sut brofiad fyddai bod yn eich arddegau yng Nghymru yn yr 1950au.<br><br>Gan edrych eto ar adrannau o Bennod 4 o *Wales Since 1939,* fel dosbarth, trefnwch siart yn esbonio'r datblygiadau mwyaf arwyddocaol mewn diwylliant ieuenctid yng Nghymru yn yr 1950au a'u heffaith.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y newidiadau mewn cymdeithas yng Nghymru yn yr 1950au.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodaeth: bywydau pwy a gafodd eu trawsnewid fwyaf erbyn yr 1950au – menywod neu bobl ifanc?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr gyflwyno dadl ynghylch effaith yr 1950au ar fywydau grwpiau penodol yng Nghymru. | Look at Wales – 1956 travelogue<br><br>Rock Around the Clock Trailer - TeachRock<br><br>A People's History of Wales, Rock 'n Roll - BBC Two | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • profiad mewnfudwyr i Gymru gan gynnwys:<br>• cenhedlaeth Windrush Cymru ac ailadeiladu ar ôl y rhyfel<br>• cymuned aml-hil Tiger Bay. | Profiadau cenhedlaeth Windrush yng Nghymru.<br><br>Pwysigrwydd Tiger Bay fel cymuned amlhiliol. | **Gweithgaredd:**<br>Edrychwch ar yr erthygl fer ar TigerBay.org a'r lluniau o Tiger Bay yng Nghaerdydd. Pa argraffiadau sydd gennych o'r ardal? Pam mae wedi bod yn gymaint o ganolfan amlddiwylliannol yn hanesyddol?<br><br>Gwyliwch glip y BBC ac archwiliwch yn gryno y berthynas rhwng dinas Caerdydd a Tiger Bay. Trafodwch eich canfyddiadau mewn grwpiau bach.<br><br>Gwyliwch fideo BBC Newsround ac atebwch y cwestiynau canlynol:<br>• Pam yr oedd angen ailadeiladu Prydain ar ddiwedd yr 1940au?<br>• Pam yr oedd pobl o'r Caribî am ddod i'r Deyrnas Unedig.<br>• Beth oedd enw (llawn) y llong a ddaeth â phobl i Brydain?<br>• Pryd wnaethon nhw gyrraedd?<br>• Beth oedd profiadau cynnar ymfudwyr?<br><br>Trafodaeth: pam na wnaeth llawer o rannau o gymdeithas ym Mhrydain groesawu'r ymfudwyr a oedd wedi cael eu gwahodd i'r Deyrnas Unedig i helpu i'w hailadeiladu ar ôl y rhyfel? | **Gwefan(nau):**<br>TigerBay.org<br><br>Tiger Bay in pictures<br><br>Windrush Cymru yn adrodd eu straeon - arddangosfa ar-lein yn dathlu cyfraniad y genhedlaeth<br><br>Windrush i Gymru<br><br>Royal Collection – Laceta Reid<br><br>**Fideo/sain:**<br>Tiger Bay 1968 BBC footage<br><br>What is the Windrush Generation? - BBC Newsround | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gweithgaredd dosbarth: edrychwch eto ar sioe sleidiau Windrush i Gymru (defnyddiwch y pwyntiau trafod olaf ar y dechrau) a gwrandewch ar adrannau o'r ffeil sain *Ein Lleisiau, ein Hanes* (gyda delweddau) a defnyddiwch y rhain i drafod profiadau unigolion – boed yn dda neu'n ddrwg – fel ymfudwyr cenhedlaeth gyntaf i Gymru. Noder: Mae *Ein Lleisiau, ein Hanes* yn cynnwys themâu heriol o hiliaeth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall amlddiwylliannaeth a'i gyfyngiadau a phrofiadau amrywiol dinasyddion o gefndiroedd y Mwyafrif Byd-eang yng Nghymru yn yr 1950au a'r 1960au.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwyliwch y fideos/gwrandewch ar y clipiau o Edna Henry a Laceta Reid a disgrifiwch y nodweddion tebyg a gwahanol yn eu profiadau o ymfudo i Gymru.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos dealltwriaeth fanwl o fywydau dau ymfudwr i Gymru. | Windrush Cymru \| Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes<br><br>Edna Henry. Windrush Cymru: Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes 2019 \| Casgliad y Werin Cymru<br><br>Laceta Reid. Windrush Cymru: Ein Lleisiau, Ein Straeon, Ein Hanes 2021 \| Casgliad y Werin Cymru | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • dylanwad y newidiadau i gyfleoedd hamdden ar fywydau pobl yng Nghymru, gan gynnwys:<br>• effaith y teledu<br>• twf twristiaeth. | Deall effaith gynyddol teledu ar gymdeithas a diwylliant yng Nghymru.<br><br>Deall twf rhai ardaloedd yng Nghymru fel ardaloedd twristiaeth poblogaidd. | **Gweithgaredd:**<br>Fel dosbarth, edrychwch eto ar *BBC Timeline* o Gemau Olympaidd 1948 i agor Canolfan Ddarlledu'r BBC yn 1960. Bydd unigolion yn gwneud nodiadau ac yna'n dewis pedair adran o'r llinell amser ac yn esbonio pam yr oedd y rhain yn arbennig o arwyddocaol.<br><br>Gwyliwch *A Brief History – British Television* (6:45 i 8:51) a thrafodwch sut yr oedd ITV yn wahanol i'r BBC. Ydych chi'n gwybod pa gwmni oedd yn darlledu ITV yng Nghymru?<br>Mewn grwpiau, darllenwch *About BBC Cymru Wales* a thrafodwch nodweddion cadarnhaol a negyddol darlledu yng Nghymru hyd at 1960.<br><br>Mewn grwpiau, rhowch grynodeb o'r hyn y gallwch ei gofio o hamdden yn ystod yr 1930au ac yna edrychwch ar ddogfen *This is Wales.* Canolbwyntiwch ar eich ardal leol a thrafodwch pa gyfleoedd twristiaeth sydd ar gael. Defnyddiwch y map ar y diwedd, nodwch o leiaf pum cyrchfan twristiaeth yng Nghymru rydych wedi ymweld â nhw (ac wedi eu mwynhau) neu wedi darllen/clywed amdanynt (ac yr hoffech ymweld â nhw). Beth wnaethoch chi ei fwynhau/beth oedd yn apelio i chi yn y llefydd hyn? | **Gwefan(nau):**<br>BBC Timeline<br><br>About BBC Cymru Wales<br><br>This is Wales<br><br>Butlins Skegness<br><br>Butlins Pwllheli<br><br>The Great British Seaside Holiday - Historic UK<br><br>Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth, 1900 hyd heddiw - Casgliad y Werin Cymru<br><br>Hamddena 1950au - Casgliad y Werin Cymru | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gweithgaredd ymchwil. Fel dosbarth, lluniwch ddiagram o'r newidiadau mewn twristiaeth o ddiwedd yr Ail Ryfel Byd i 1960 (mae deunyddiau blaenorol CBAC ar gael i gefnogi hyn yn ogystal â'r adnoddau sydd wedi'u rhestru ar y dde).<br>Meddyliwch am y canlynol:<br>• Pam oedd y bobl yn awyddus i gael gwyliau ar ddiwedd yr 1940au?<br>• Pa mor bwysig oedd datblygiad gwyliau carafanau?<br>• Pam oedd gwersylloedd gwyliau fel Butlins a Pontins mor boblogaidd?<br>• Pa mor arwyddocaol oedd ceir a chysylltiadau ffyrdd gwell?<br>• Effaith y Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Eryri (1951), Arfordir Sir Benfro (1952), Bannau Brycheiniog (1957).<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall datblygiad y teledu yn yr 1950au, y ffyrdd y datblygodd twristiaeth ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd, ac effaith y newidiadau hyn ar bobl yng Nghymru.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch: A oedd yr 1950au yn oes aur teledu a thwristiaeth ym Mhrydain? | **Llyfr(au):**<br>R Paul Evans, *My Revision Notes: CBAC TGAU Hanes Llwybr B (2014),* Penodau 5.2 a 6.2<br><br>**Fideo(s):**<br><br>A Brief History - British Television | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith teledu a thwristiaeth ac asesu eu heffaith ar fywydau pobl yng Nghymru a gweddill y DU. | | |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Mae Amgueddfa Cymru digidol neu ar-lein yn ymdrin â phob testun, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymdrin â phob testun<br>Mae Stori Caerdydd yn ymdrin â diwydiant yng Nghaerdydd, hefyd y Blitz yng Nghaerdydd. |
| meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Caiff dysgwyr y cyfle i ddatblygu empathi a thosturi drwy astudio plwraliaeth Cymru a'r ffordd y mae wedi datblygu fel cymdeithas dros amser. |
| gweithio ar y cyd | Mae cyfleoedd i gydweithio mewn grŵp ac i drafod fel dosbarth ynghyd â gwneud gwaith grŵp e.e. Ystyried effaith Cymru newidiol ar gymdeithas, ystyried effaith twristiaeth ar Gymru |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru**<br>**Themâu sy'n trawstorri** | |
|---|---|
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae Uned 1 yn rhoi chwe thestun hanesyddol gwahanol i ganolfannau sy'n ymwneud â hanes amrywiaeth o ardaloedd yng Nghymru, gan alluogi dysgwyr i archwilio cyd-destunau lleol neu genedlaethol.<br><br>Opsiwn 1.6 Modern: Mae Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio enghreifftiau o bob rhan o Gymru, gan ganolbwyntio ar iaith, gwleidyddiaeth, mewnfudo, chwaraeon a hamdden ac ati.<br><br>Mae'r uned yn galluogi dysgwyr i archwilio Cymru a sut gwnaeth ei lle yn y byd ehangach ddatblygu dros amser. Mae'n ystyried sut symudodd o gymdeithas Brydeinig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf i ddatblygu mwy o'i hunaniaeth unigryw ei hun erbyn yr 1950au. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Caiff dysgwyr y cyfle i ystyried effaith y berthynas rhwng milwyr yr Unol Daleithiau (GIs) a phobl Cymru. Gallant hefyd ystyried datblygiad menywod a hawliau menywod dros y cyfnod. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Caiff dysgwyr y cyfle i ystyried safbwyntiau llawer o bobl mewn cymdeithas yng Nghymru gan gynnwys y boblogaeth mewnfudwyr a'u profiadau. Mae'n ystyried yr heriau a wynebwyd gan Gymru wrth iddi geisio datblygu ei hunaniaeth ei hun drwy genedlaetholdeb ac ymgorffori'r Ddraig Goch ar y faner. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Caiff dysgwyr y cyfle i archwilio tirwedd newidiol diwydiant Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ynghyd â rôl newidiol menywod yn y gweithle yn ystod yr Ail Ryfel Byd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td>Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td>Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer pwrpas.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
<tr><td>Siarad</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Bydd cyfleoedd ar gael iddynt hefyd i adfyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu.<br>**Enghreifftiau**<br>• Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Rhifedd | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Mae cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.<br><br>**Enghreifftiau**<br><br>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i destun hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cymhwysedd Digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.<br>**Enghraifft**<br>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â thestun. |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.<br>**Enghraifft**<br>Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i destun a'i gyflwyno er mwyn cyflwyno maes astudio. |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol.<br>**Enghraifft**<br>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudio. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td>Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Creadigrwydd ac Arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o destunau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn at senarios bywyd go iawn.<br><br>Enghreifftiau<br><br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a phwrpas.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</td></tr>
<tr><td>Cynllunio a Threfnu</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cynllunio a Threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut mae'n bosibl ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.<br><br>Enghraifft</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd 2025.

| | |
|---|---|
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna i gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae sawl cyfle i gynnwys Effeithiolrwydd Personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg.<br>**Enghreifftiau**<br>• Bydd dysgu am destunau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.

## Rhestr termau ar gyfer Opsiwn 1.6 Modern: Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif i ganol yr ugeinfed ganrif, tua 1914 – tua 1959

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| gwrthwynebydd cydwybodol | Unigolyn sy'n gwrthod yr hawl i gyflawni gwasanaeth milwrol. |
| Dôl | Budd-dal diweithdra a roddir i rywun sydd allan o waith. |
| GIs | milwyr yr Unol Daleithiau a fu'n gwasanaethu yn yr Ail Ryfel Byd |
| Ffrynt Cartref | Gweithgareddau'r boblogaeth sifiliaid pan oedd y gwledydd yn cymryd rhan mewn rhyfel. |
| Cenedlaetholdeb | Ideoleg sy'n pwysleisio teyrngarwch i wlad neu wladwriaeth. |
| Plaid Cymru | Plaid wleidyddol genedlaetholgar yng Nghymru. |
| Y Dirwasgiad | Cyfnod o galedi economaidd ym Mhrydain yn yr 1930au. |

© WJEC CBAC Ltd 2025.